

Cyfeirnod: IR750

Dyddiad cyhoeddi: 2 Medi 2020

Chwythwyr chwiban

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth isod dyddiedig 09 Awst 2020 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am chwythwyr chwiban.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

1. A yw eich Sefydliad yn cymryd camau i amddiffyn chwythwyr chwiban allanol rhag triniaeth na ellir ei gyfiawnhau gan eu cyflogwyr neu eraill?

Mae [offeryn statudol](#) (Gorchymyn Datgelu er Lles y Cyhoedd (Personau Rhagnodedig) 2014/2418) yn darparu bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn berson rhagnodedig ar gyfer datgeliadau am 'gynnal busnes cyhoeddus yn briodol; gwerth am arian, twyll a llygredd mewn perthynas â darparu gwasanaethau cyhoeddus'. Nid oes dyletswydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i ymchwilio i bob datgeliad y mae'n ei dderbyn; ni all ond ymchwilio i ddatgeliadau yn unol â'i archwiliad presennol a phwerau a dyletswyddau cyfreithiol cysylltiedig.

Mae rhagor o wybodaeth am chwythu'r chwiban i'w gweld ar y [wefan Archwilio Cymru](#). Mae ein [taflen gyhoeddedig](#) i'w gweld yno, sy'n darparu canllawiau i'r cyhoedd ar rôl yr Archwilydd Cyffredinol o ran chwythu'r chwiban, gan gynnwys sut i wneud datgeliad o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 a beth i'w ddisgwyl gennym mewn ymateb.

2. A oes unrhyw amddiffyniad rhag triniaeth na ellir ei gyfiawnhau a ddarperir gan eich sefydliad yn ymestyn i bersonau sy'n adrodd ar ran chwythwyr chwiban allanol?

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb yn benodol i'r disgrifiad hwn – gweler y [daflen chwythu'r chwiban](#) ar wefan Archwilio Cymru.

3. A oes unrhyw amddiffyniad yn ymestyn i gamau gweithredu arfaethedig neu fwriedig yn erbyn chwythwr chwiban allanol a ystyriwyd gan ei g/chyflogwr neu un arall mewn perthynas â'r datgeliad?

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb yn benodol i'r disgrifiad hwn, ond fe'ch cyfeiriwn fodd bynnag at ein [taflen chwythu'r chwiban](#) ar wefan Archwilio Cymru sy'n nodi "nid oes gan yr Archwilydd Cyffredinol y pŵer i benderfynu a yw'r datgeliad yn

un gwarchodedig (gan mai mater i'r Tribiwnlys Cyflogaeth yw hynny), nac i ymyrryd mewn cysylltiadau cyflogaeth, ac ni all roi cyngor cyfreithiol".

- 4. A yw eich sefydliad yn cynnig unrhyw wobwr am wybodaeth a dderbynnir gan chwythwr chwiban allanol mewn perthynas â gwybodaeth yr ydych chi'n gorff neu berson rhagnodedig amdani?**

Nac ydy

- 5. A yw eich sefydliad yn cyhoeddi canllaw cam wrth gam i'r cyhoedd ar sut y mae'n dilyn gwybodaeth allanol am chwythwyr chwiban?**

Ydym, rydym yn eich cyfeirio at y [dudalen chwythu'r chwiban](#) ar wefan Archwilio Cymru, sy'n darparu canllaw arfer da i weithwyr a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â thaflen gyhoeddiedig sy'n darparu [canllawiau](#) i'r cyhoedd ar rôl yr Archwilydd Cyffredinol o ran chwythu'r chwiban, sut i wneud datgeliad a beth i'w ddisgwyl gennym mewn ymateb.

- 6. Mewn achos lle nad yw eich sefydliad yn teimlo ei fod yn gymwys yn gyfreithiol i ymdrin â datgeliad a wneir gan chwythwr chwiban allanol, a oes gennych bolisi a phroses i gyfeirio'r datgeliad hwnnw at gorff/person/rheoleiddiwr rhagnodedig arall neu asiantaeth arall sydd mewn gwell sefyllfa i ddelio ag ef?**

Pan fydd chwythwyr chwiban allanol yn codi materion nad ydynt yn berthnasol i rôl a chylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, byddwn fel arfer yn cyfeirio'r unigolyn at bersonau neu sefydliadau eraill, gan gynnwys personau rhagnodedig eraill, y mae'r materion yn berthnasol iddynt. Yn ein [canllawiau cyhoeddiedig](#), ac rydym hefyd yn darparu dolen i [restr Llywodraeth y DU o bobl a chyrrff rhagnodedig](#).

- 7. Pan, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn C6 uchod, mae eich sefydliad yn trosglwyddo gwybodaeth i gorff rhagnodedig arall ac ati, a oes gennych bolisi a phroses i roi gwybod i'r chwythwr chwiban allanol bod y datgeliad wedi'i drosglwyddo i gorff arall ac ati?**

Gweler yr ymateb i C6 uchod.

- 8. Mewn sefyllfa lle gallai chwythwr chwiban allanol fod yn anfodlon â'i ymwneud â'ch sefydliad, a oes polisi a phroses apelio sy'n ymgysylltu â rhywun sy'n annibynnol ar yr adran ymchwilio?**

Oes, byddai senario o'r fath yn cael ei drin o dan ein proses gwyno, fel yr amlinellir yn ein [Taflen Gwynion](#).

- 9. A yw eich sefydliad yn cyhoeddi Cwestiynau Cyffredin i gynghori a chynorthwyo chwythwyr chwiban allanol sy'n ystyried gwneud datgeliad i chi?**

Rydym wedi cyhoeddi [canllawiau](#) i'r cyhoedd ar ein gwefan ar rôl yr Archwilydd Cyffredinol o ran chwythu'r chwiban a sut i wneud datgeliad, sy'n cynnwys pwyntiau allweddol i'w nodi.

10. A yw eich holl staff sy'n cyfathrebu â chwythwyr chwiban allanol neu'n eu rheoli fel arall yn cael hyfforddiant arbenigol a pharhaus at y diben hwnnw?

Mae staff sy'n arwain ar y ffordd yr ymdrinnir â datgeliadau a pharatoi ymatebion yn cael hyfforddiant gloywi arbenigol rheolaidd at y diben hwnnw.

11. Mewn sefyllfa, yn dilyn datgeliad i'ch sefydliad gan chwythwr chwiban allanol am fater yr ydych wedi'i ragnodi ar ei gyfer, bod gweithred honedig o ddial yn digwydd yn erbyn y chwythwr chwiban allanol gan y cyflogwr neu berson arall, a yw eich sefydliad yn ymchwilio i'r weithred honedig o ddial?

Gweler ein [taflen chwythu'r chwiban](#) sy'n amlinellu cwmpas rôl yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chwythu'r chwiban.

12. Disgrifiwch pa feini prawf fyddwch chi'n eu hystyried wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i wybodaeth a dderbynnir gan chwythwr chwiban allanol am fater yr ydych yn rhagnodedig ar ei gyfer?

Fel yr amlinellir yn [ein canllawiau cyhoeddedig](#), nid oes dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ymchwilio i bob datgeliad y mae'n ei dderbyn a gall ymchwilio'n unol â'i archwiliad presennol a phwerau a dyletswyddau cyfreithiol cysylltiedig yn unig. Mae gwybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar gael ar ein gwefan yn ein [Canllawiau ar Ddeddfwriaeth Archwilio Cyhoeddus Cymru](#).

13. A yw eich sefydliad yn gwahaniaethu rhwng cwynion cyhoeddus a datgeliadau gan chwythwyr chwiban allanol?

Ydym Gweler ein [Canllaw i Ohebwyr](#) ar ein gwefan sy'n esbonio ein dull o weithredu.

14. Ar wahân i unrhyw wybodaeth ar eich gwefan, a yw eich sefydliad yn ymgymryd ag unrhyw raglen(ni) ymwybyddiaeth gyhoeddus ynglŷn â chwythu'r chwiban?

Ydym O bryd i'w gilydd, drwy ein rhaglen waith arfer da, rydym yn cynnal seminarau dysgu a rennir i drafod gwahanol ddulliau o ymdrin â datgeliadau, sut deimlad yw hynny o safbwynt chwythwr chwiban, a ble i ganfod yr offer a'r adnoddau i helpu i wneud y gorau o'r wybodaeth werthfawr hon. Cynhaliwyd [y digwyddiad diweddaraf o'r fath yn 2017](#). Drwy ein rhaglenni gwaith archwilio, o bryd i'w gilydd rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau archwilio sy'n canolbwyntio'n benodol ar effeithiolrwydd polisiâu a gweithdrefnau chwythu'r chwiban e.e.

<https://www.audit.wales/cy/publication/cyngor-sir-penfro-adolygiad-dilynol-o-bolisiau-gweithdrefnau-chwythur-chwiban-chwyno>

15. Mewn perthynas ag Erthygl 5(c)(ii), Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ar Ddatgeliadau Gwybodaeth) 2017, datgelwch unrhyw a phob adroddiad (wedi'u golygu'n briodol, lle y bo'n briodol) sy'n disgrifio sut mae datgeliadau gan weithwyr mewn sefydliadau eraill (nid eich Sefydliad chi) wedi effeithio ar allu eich Sefydliad chi i gyflawni ei

swyddogaethau a chwrdd â'i amcanion yn ystod y cyfnodau adrodd 2017 – 18, 2018 – 19, 2019 – 20.

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n cyfateb i'r disgrifiad hwn yn benodol, ond rydym yn eich cyfeirio at yr adroddiadau diweddaraf:

<https://www.audit.wales/cy/publication/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-20> (tud 130)

<https://www.audit.wales/cy/publication/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2019-20>
<https://www.audit.wales/system/files/publications/Annual-Report-2019-eng.pdf> (tud 128)

<https://www.audit.wales/cy/publication/adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2018-19>
(tudalen 128)

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am y ffordd yr ymdriniais â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Swyddog Gwybodaeth